Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

# LLYSIAU O GYMRU AR GYFER YSGOLION

## Tyfu Dyfodol Iachach i Gymru

### Beth yw hyn?

Menter wedi'i harwain gan Synnwyr Bwyd Cymru mewn cydweithrediad â Castell Howell, Garddwriaeth Cyswllt Ffermio, tyfwyr, ffermwyr ac awdurdodau lleol i geisio sicrhau bod mwy o lysiau organig wedi'u tyfu'n lleol yn cael eu cynnwys mewn prydau ysgolion cynradd ledled Cymru.

### Pam gwneud hyn?

- Gwella mynediad plant at fwyd iach, lleol
- Cefnogi ffermwyr a thyfwyr Cymreig
- Adeiladu systemau bwyd lleol cryf
- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- Cynyddu bioamrywiaeth



### Pwy sy'n elwa?

- Plant ysgol gynradd mewn amrywiaeth o ysgolion ar draws Cymru yn ystod sesiynau Bwyd a Hwyl yr haf ac yn ystod tymor yr hydref
- Ysgolion, sy'n cael llysiau ffres fel moron, brocoli, tomatos, ciwcymbrau a llawer mwy

### Yr effaith hyd yma

**Dechreuodd yn 2022:**

- 1 tyfwr
- 1 tunnell o courgettes
- 1 ardal awdurdod lleol
- arbedwyd 3 tunnell o $CO_2e$
- cynnydd o 35% mewn bioamrywiaeth
- creu 1.2 o swyddi amser llawn

**Yn 2024:**

- dosbarthwyd 14 tunnell i 200+ o ysgolion
- cafodd 200,000 o ddognau eu gweini

**Yn 2025:**

- 15 o dyfwyr yn cymryd rhan yn y cynllun
- 60 tunnell o lysiau = 1 miliwn o ddognau
- 12 awdurdod lleol yn cymryd rhan

### Pam mae'n bwysig

- Yn 2022 dim ond 6% o'r llysiau a brynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a oedd yn dod o Gymru
- Mae'r prosiect yn helpu i:
  - Ddarparu llysiau lleol, organig ar gyfer prydau ysgol maethlon
  - Cefnogi ffermwyr a thyfwyr lleol
  - Lleihau allyriadau carbon
  - Cefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth
  - Lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforio



### Gweledigaeth ar gyfer 2030

- 25% o'r llysiau ym mhob ysgol gynradd yn rhai lleol ac organig.

### Beth sydd ei angen

- Cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer ffermwyr a thyfwyr
- Buddsoddi mewn offer a seilwaith
- Cysylltu plant â lle mae eu bwyd yn dod
- 3c y pryd y dydd ar gyfer 2 ddogn o lysiau tymhorol, lleol ac organig

### Lleisiau o'r maes

*"Rydym wrth ein bodd i fod yn rhan o'r prosiect anhygoel hwn. Mae'n gyfle gwych i ddarparu bwyd lleol, ffres i ysgolion lleol. Yng Ngardd Enfys, rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i ddangos i'r plant ble mae eu llysiau'n cael eu tyfu ac yn eu helpu i wneud cysylltiad â'r bwyd ar eu platiau.*

**Ruth Davies, Tyfwr**

*Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn i fod yn rhan o'r prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion. Mae'n golygu bod bwyd da yn cyrraedd y bobl sydd ei angen fwyaf, sef cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n gobeithio y gallwn eu hysbrydoli nid yn unig i feithrin angerdd tuag at fwyta bwyd iach sy'n ystyriol o'r amgylchedd, ond hefyd i fod yn ffermwyr a thyfwyr y dyfodol a fydd yn ein bwydo ni oll yn eu tro."*

**Katherine Langton, Fferm Langtons**

### Cymryd rhan

Dysgwch fwy: **synnwyrbwydcymru.org.uk**
Cysylltwch â **foodsensewales@wales.nhs.uk**

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales · Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government · Bwyd a Hwyl / Food and Fun · HealthCharity Elusenlechyd · Farming Connect / Cyswllt Ffermio · Lantra · Castell Howell · Pontio'r Bwlch · Bridging the Gap · Monmouthshire / Sir Fynwy